**ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL**
**Adran 4 POLISÏAU, CYNLLUNIAU, PERFFORMIAD: *Gosod dysgu wrth galon yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell***

Ydych chi a'ch cydweithwyr neu bartneriaid wedi defnyddio'r rhestr wirio fer i gael trosolwg o'ch sefydliad?

Yn awr defnyddiwch y rhestr wirio fanwl hon i archwilio'ch gwaith yn fanylach. Bydd y rhestr wirio hefyd yn eich cynorthwyo i ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi'ch honiadau.

Mae gan yr egwyddor allweddol POLISÏAU, CYNLLUNIAU, PERFFORMIAD 3 elfen ac mae gan bob un o'r rhain ddwy adran

- **Cwestiynau i ganfod i ba raddau yr ydych yn dilyn arferion gorau yn y maes hwn**
- **Cwestiynau i ganfod a oes gennych chi dystiolaeth o ganlyniadau ac effaith y prosesau hyn**

Awgrymwn eich bod yn canolbwyntio ar yr adran hon ac yn gweithio trwyddi fel tîm yn fanwl, cyn symud ymlaen i gynllunio gweithredu. Ceisiwch fod mor onest â phosibl yn eich atebion.

SYLWER: NI FYDD YR HOLL ENGHREIFFTIAU O DYSTIOLAETH YN BERTHNASOL I BOB AMGUEDDFA, ARCHIF NEU LYFRGELL

**ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL**
**Adran 4 POLISÏAU, CYNLLUNIAU, PERFFORMIAD:** ***Gosod dysgu wrth galon yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell***

## 4.1 Ydych chi'n canfod a cheisio dylanwadu ar fentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ymwneud â dysgu?

| **Camau Gweithredu** | ***Ydym*** | ***Wedi dechrau*** | ***Na*** |
|---|---|---|---|
| 4.1.1 Ydych chi'n gyfarwydd â mentrau newydd a rhai ar fin cael eu datblygu sy'n dylanwadu ar ddysgu? | | | |
| 4.1.2 Ydych chi'n meddu ar eiriolaeth briodol dros eich sefydliad sy'n eich cynorthwyo i ddylanwadu ar fentrau dysgu allweddol? | | | |
| 4.1.3 Ydych chi'n cwrdd â rhanddeiliaid[1] yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'ch polisïau a'ch rhaglenni dysgu? | | | |

[1] Unrhyw bobl neu sefydliadau sydd â budd neu ddiddordeb yn yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell.

| **Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da** | ***Ydym/ Ydy*** | ***Na*** | ***Meysydd i'w Gwella*** |
|---|---|---|---|
| *Ydych chi wedi:*<br>➢ bwrw golwg dros ac yn ystyried dogfennau polisi perthnasol a mentrau sy’n ymwneud â dysgu ac yn deall eu perthnasedd i chi?[2]<br>➢ adolygu’n rheolaidd yr amgylchedd allanol yr ydych yn gweithredu ynddo?<br>➢ rhannu polisïau a mentrau perthnasol ag eraill yn eich amgueddfa, eich archif neu’ch llyfrgell?<br>➢ ymateb i fentrau sy’n berthnasol i’ch sefydliad?<br>*Ydy eich staff ac aelodau cyrff llywodraethol*<br>➢ yn mynychu digwyddiadau a chyflwyniadau perthnasol i sicrhau eu bod yn gwybod y diweddaraf am faterion dysgu?<br>➢ sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli ac yn weithgar ar bartneriaethau dysgu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?<br>➢ cyfranogi yng ngwaith cyrff proffesiynol a dysgu oddi wrtho?<br>*Ydy’ch rhanddeiliaid*<br>➢ yn gweld eich sefydliad fel partner allweddol yn y gwaith o gefnogi dysgu, sgiliau ac agendâu cynhwysiant cymdeithasol? | | | |

[2] Megis polisïau’r llywodraeth, agendâu rhanbarthol a datblygiadau diwylliannol a chymdeithasol.

**ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL**
**Adran 4 POLISÏAU, CYNLLUNIAU, PERFFORMIAD:** ***Gosod dysgu wrth galon yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell***

## 4.2 Ydych chi'n ymateb i fentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn eich cynlluniau a'ch blaenoriaethau?

| **Camau Gweithredu** | | ***Ydym*** | ***Wedi dechrau*** | ***Na*** |
|---|---|---|---|---|
| 4.2.1 Ydy eich strwythurau cynllunio a threfniadol yn pennu, adlewyrchu a blaenoriaethu dysgu, mynediad a chynhwysiant? | Pennu | | | |
| | Adlewyrchu | | | |
| | Blaenoriaethu | | | |
| 4.2.2 Ydych chi'n ceisio cyllid a chymorth ychwanegol i wella'r ddarpariaeth ddysgu? | | | | |
| 4.2.3 Ydy'r strategaeth ddysgu[3] yn cael ei chymeradwyo a'i gweithredu ar draws y sefydliad? | | | | |

[3] Gall y strategaeth fod yn ddogfen unigol neu gall fod yn gynwysedig mewn dogfennau eraill e.e. y Cynllun Gwasanaeth, Cynllun Strategol, Cynllun Blynyddol neu Ddatganiad Sefyllfa.

| **Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da** | ***Ydym/ Ydy*** | ***Na*** | ***Meysydd i'w Gwella*** |
|---|---|---|---|
| *Ydych chi wedi:*<br>➢ integreiddio agendâu cenedlaethol yn eich cynlluniau trefniadol a'ch rhaglenni?[4]<br>➢ sicrhau bod ffactorau cymdeithasol, gwleidyddol a chymunedol lleol a rhanbarthol yn siapio a goleuo eich strategaeth a'ch darpariaeth ddysgu?<br>➢ creu cynllun i roi dysgu a mynediad ar waith, sydd wedi'i gymeradwyo gan eich corff llywodraethol?<br>➢ targedu eich cynlluniau ariannol a'ch cyllidebau i gynyddu mynediad at gyfleoedd dysgu?<br>➢ cyflenwi rhaglenni a gwasanaethau i ddiwallu bylchau yn y ddarpariaeth ddysgu?<br>➢ monitro gweithrediad ac effeithlonrwydd y strategaeth ddysgu?<br>*Ydy aelodau eich cyrff llywodraethol a rhanddeiliaid eraill:*<br>➢ yn cael eu hymgynghori â hwy ac yn derbyn gwahoddiad i gyfrannu eu syniadau a'u gofynion mewn perthynas â dysgu a mynediad?<br>➢ yn gallu disgrifio eu hamgyffrediad hwy o sut mae eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell yn cefnogi dysgu?<br>*Ydy eich staff:*<br>➢ yn deall eu swyddogaethau ac yn atebol am gyflwyno'r cynllun?<br>➢ sy'n arwain ar faterion dysgu yn cael eu cynrychioli ar lefel rheolaeth uwch a'u cynnwys pan wneir penderfyniadau corfforaethol?<br>➢ ar bob lefel yn gweld dysgu a diwallu anghenion dysgu defnyddwyr fel rhan o'u gwaith canolog? | | | |

[4] e.e. agendâu'r llywodraeth ar ddysgu gydol oes a chynhwysiant cymdeithasol, sgiliau sylfaenol, e-lywodraeth, dinasyddiaeth, dadlennu llawn, fframweithiau a safonau'r MLA.

**ANNOG DYSGU – RHESTR WIRIO FANWL**
**Adran 4 POLISÏAU, CYNLLUNIAU, PERFFORMIAD:** ***Gosod dysgu wrth galon yr amgueddfa, yr archif neu'r llyfrgell***

## 4.3 Ydych chi'n dangos bod eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell yn gorff dysgu trwy brosesau datblygu a gwerthuso staff

| **Camau Gweithredu** | ***Ydym*** | ***Wedi dechrau*** | ***Na*** |
|---|---|---|---|
| 4.3.1 Ydych chi'n gwerthuso'ch gweithgareddau i'ch galluogi i ymateb i'ch defnyddwyr? | | | |
| 4.3.2 Ydych chi'n darparu cyfleoedd i staff gyfrannu tuag at gynllunio a datblygu? | | | |
| 4.3.3 Ydych chi'n darparu ystod o gyfleoedd datblygu i gefnogi dysgu ar gyfer yr holl staff gan gynnwys staff dros dro a gwirfoddolwyr? | | | |
| 4.3.4 Ydych chi'n pennu a datblygu lladmeryddion dysgu ymysg aelodau eich corff llywodraethol? | | | |
| 4.3.5 Ydych chi'n hyrwyddo cydraddoldeb a goddefgarwch ar draws y sefydliad? | | | |

| **Tystiolaeth o ganlyniadau a phrosesau arfer da** | ***Ydym / Ydy*** | ***Na*** | ***Meysydd i'w Gwella*** |
|---|---|---|---|
| *Ydych chi wedi:*<br>➢ sicrhau bod ymgynghori a chydweithio yn ganolog i'ch dull o weithio?<br>➢ cynnwys treialu a gwerthuso rheolaidd yn eich rhaglenni gwaith?<br>➢ dangos bod eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell yn datblygu ac yn gweddnewid ei hun mewn ymateb i adolygiad parhaus o'i weithgareddau?<br>➢ trafod materion dysgu ar bob lefel a chynhyrchu a gweithredu ar gynlluniau newid/gwella?<br>➢ ymroi i/wedi cyflawni BmP[5] NEU fod strategaeth gyffredinol a chynllun yn bodoli i ddatblygu pobl?<br>➢ sicrhau bod polisi cyfle cyfartal a chod ymarfer eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell yn cael eu gweithredu gan bawb?<br>➢ cymryd camau i sicrhau bod proffil staff yr holl sefydliad yn dod i adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennych[6] yn fwy?<br>➢ cymryd camau i sicrhau bod rhaglenni gwirfoddoli, swyddi dan hyfforddiant a phrofiad gwaith yn cynnwys grwpiau o leiafrifoedd diwylliannol a hiliol a phobl ag anghenion mewn perthynas â sgiliau sylfaenol, er enghraifft?<br>*Ydy aelodau eich corff llywodraethol:*<br>➢ yn hyderus i gynrychioli eich amgueddfa, eich archif neu'ch llyfrgell mewn trafodaethau gyda rhanddeiliaid ar faterion dysgu?<br>➢ yn weddol gynrychioliadol o'ch cymunedau?[7]<br>➢ yn cefnogi eich polisïau ar ddysgu, cydraddoldeb a goddefgarwch?<br>*Ydy eich staff:*<br>➢ yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu mewnol ac allanol?[8]<br>➢ yn adlewyrchu, dysgu oddi wrth a rhannu canlyniad eu dysgu eu hunain ac yn cynnwys hyn yn eu gwaith?<br>➢ yn gweld bod yna ladmeryddion ar lefel rheolaeth uwch a llywodraethol sy'n hyrwyddo'u gwaith yn allanol?<br>➢ yn gwybod goblygiadau moesol a chyfreithiol gweithio gyda defnyddwyr?[9]<br>➢ yn cydnabod bod y sefydliad yn un sy'n cefnogi cydraddoldeb a goddefgarwch? | | | |

[5] Buddsoddwyr mewn Pobl www.iipuk.co.uk
[6] e.e. drwy recriwtio staff a dargedir, cyfranogi mewn cynlluniau cyflogadwyedd a hyfforddi.
[7] Yn nhermau oedran, rhyw, grŵp diwylliannol, grŵp cymdeithasol ac economaidd.

[8] e.e. Cynllun Secondio Rhannu Sgiliau; rhaglenni CPD; cymwysterau proffesiynol a galwediaethol.
[9] e.e. amddiffyn plant, camwahaniaethu ar sail anabledd, cyfle cyfartal, cysylltiadau hiliol, hawliau eiddo deallusol, diogelu data, rhyddid gwybodaeth.